# Y GLUDERAU

Mae'r Gluderau yn ymestyn o Fynydd Llandegai i Gapel Curig, ac yn cynnwys pum copa uchel; mae'r rhain yn cynnwys Tryfan, a ystyrir yn un o'r mynyddoedd gorau yng Nghymru ac un o'r ychydig fynyddoedd sydd angen sgramblo i gyrraedd y copa. Ar un adeg dim ond un enw mynydd oedd, sef un a oedd yn cael ei alw Y Gluder/Y Gluder; fe'u gwahanwyd yn ddiweddarach.

*'The first, is the summit, or utmost of the Glyder (a Mountain above-mention'd as one of the highest in these parts) where I observ'd prodigious heaps of stones, many of them of the largeness of those of Stonehenge, but of all the irregular shapes imaginable; and all lying in such confusion, as the ruins of any building can be suppos'd to do. Now I must confess, I cannot well imagine how this hath happen'd : for that they should be indeed the ruins of some Edifice, I can by no means allow, in regard that most of them are altogether as irregular as those that have fall'n to the Valleys. Let us then suppose them to be the Skeleton of the hill, expos'd to open view, by rains, snow, etc. But how came they to lye across each other in this confufion? ....'* Edward Lhuyd (Camden's Britannia: E Gibson 1695)

**Y Gluder Fawr 999m SH 642580**

Glyder Fawr yw'r enw a welir at y mapiau AO, ond camsillafiad ydyw ar y ffurf treigliedig *gluder* neu gludair, dylid gweld Y Gludair Fawr neu Y Gluder Fawr fel yr enw. Yn deillio o *cludair/cluder* 'unrhyw beth a gesglir yn bentwr neu dwmpath', sef y tomennydd anferth ar gopa'r mynydd. Mae'r ystyr a'r ffurf treigliedig i'w weld yng ngwaith Guto'r Glyn (c. 1412 – c. 1493):

*Mae'r glod, pe bai'mwy'r gludair.*
*Am bob carreg deg o'i do*
*Mae 'mendith am y maendo.*

Yr oedd y gair yn y geiriaduron cynnar; ond wrth i Edward Lhuyd ddisgrifio ei ymchwiliad ar blanhigion yr ardal (1688); fe roddodd: '*Rhiw'r Glyder, supra locum Llyn y Cwn'* yn rhoi'r sillafiad glyder (nodwch siadau'r gweddill!). Yn hwyrach fe ysgrifennodd: '*Among these mountains, the most noted are Moel y Wydhva, y Glyder, Karnedh Dhavidh and Karnedh Lhewelyn.'*

Nid yw'n hysbys pam y mabwysiadodd y ffurf hon, ond pan nodir sillafiad lleoliadau eraill (e.e. Karnedh Dhavidh, Karnedh Lhewelyn), efallai y bu ymgais i ganiatáu i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg geisio deall rhyw fath o gywirdeb yn yr ynganiad. Ar y pryd, ni cheisiodd neb gywiro'r ffurf lygredig hon mewn gwirionedd, efallai oherwydd statws academaidd Lhuyd. Er i Lewis Morris ddatgan: '*Glyder, a mountain in Eryri, perhaps y Gludair'* Celtic Remains (1757).

Cevn y Glyder 1719 Glossarium Antiquarium Britannicarum (E Lhuyd), Bryn y Gludair/Bryn y Gludr 1790 Llawysgrifau Penrhyn, Glider Fawr 1834 Map Greenwood.

**Y Gluder Fach 990m SH 656582**

Defnyddir *cludair/cluder* oherwydd bo'r gwastadeddau ger y copa ac ochrau'r mynyddoedd yn cynnwys pentyrrau cymysg o greigiau ar chwâl, glogwyni mawr a llethrau sgri. Fe ddefnyddiwyd y termau *mawr* 'uwch' a *bach* 'is', hyd yn oed cyn iddynt gofnodi'r gwahaniaeth mewn uchder; cyn hynny roedd yr enw Gludair/Gluder yn golygu màs enfawr y ddau fynydd. Gludar Bach a Glyder Bach 1781 Thomas Pennant, The Glydars 1809/11 Edmund Hyde Hall.

**Castell y Gwynt 972m SH 654582**

Mae'r enw Castell y Gwynt yn un eithaf rhamantus ac yn un go hwyr, mae gan y copa penodol yma ffurf greigiog drawiadol ac mae ei natur agored yn ei wneud yn fan gwyntog; benthyciad o'r Lladin *castellum* neu'r Saesneg Canol *castel*. Carnedd y Gwynt 1781 Thomas Pennant.

Mynyddoedd

**Y Garn 947m SH 631596**
*Carn* 'carnedd, gwyddfa, twmwlws neu domen', Llydaweg *karn*, Cernyweg *karn*, Gwyddeleg *carn* ‘twr o gerrig’. Fel arfer, yn cael ei ddefnyddio mewn enwau bryniau a mynyddoedd ble mae (neu yn debyg i) tomen o gerrig garw wedi ei chodi fel beddau yn y cyfnod cyn-hanesyddol. Pan welwch y fannod *yr* neu *y*, o flaen enw llecyn; nid gwir enw priod ydyw, ond enw cyffredin wedi ei wneud yn arbennig.

**Elidir Fawr 923m SH 612613**
Yr oedd Elidir yn enw personol digon cyffredin ar un adeg, gyda'r ffurfiau yn debyg i Eluet, Elitivae ac Elit, i gyd yn gysylltiedig â'r Gymraeg *elain* 'iyrches, ewig'; hefyd yr Hen Wyddeleg *elit* 'iyrches', i gyd yn deillio o’r Gelteg **elanī* . Heblaw enw personol, gall yr enw gysylltu'n syth at y gair *elain* 'ewig' + *tir* 'ardal' i ddynodi man ble welir yr anifeiliaid. Ond, mae eraill yn nodi ffurf ddirweddol sy'n gysylltiedig ag *elin* 'penelin, ongl' o'r gwreiddyn **el-* 'plygu' yn yr enw oherwydd ei ffurf onglog. Rhoddwyd y Gelteg **ol-īnā* ‘ongl, pen elin' y ffurfiau: Hen Gernyweg *elin*, Llydaweg *elin*, *ilin*, Gwyddeleg Canol *uillind* ‘penelin; ongl’, Hen Wyddeleg *uilenn* ‘ongl’. O'r Gorllewin mae'r mynydd yn onglog iawn, fel lletem neu ben elin. Enwyd y sbardun sy'n ymestyn i'r De Orllewin yn Garnedd Clippiau ac ar ei ddiwedd fe welir Talcen y lidir ar Fap Degwm 1838. Carnedd Elidir 1757 Lewis Morris, Llider Vawr 1781 Thomas Pennant, 'mountain called Lidir' 1828 Llawysgrifau Porth yr Aur, Lider Fawr 1834 Map Greenwood.

Mae'r chwedl sy'n cysylltu enwi'r bryn fel coffâd i dywysog yr 'Hen Ogledd' o'r enw Elidyr Mwynfawr, a oedd yn briod ag Eurgain, merch Maelgwn Gwynedd yn un gwan braidd.

**Tryfan 915m SH 663592**
Yr esboniad mwyaf tebygol ar enw'r mynydd enwog yma yw *try* 'tra' + *ban* 'pen, copa', sydd yn rhoi synnwyr tebyg i fynydd miniog neu fynydd pigfain. Ar un adeg, rhoddwyd y dehongliad anghywir i’r ystyr drwy gysylltu’r enw gyda'r gair *tri* + *ban*, oherwydd y tri chopa: neu, ffurf arall tebyg, sef *tri* + *fa(e)n*. Hefyd, ar un adeg cynigwyd *tr(w)y* + *ban* fel yr ystyr, fel y pen neu’r mynydd uwch y llwybr drwy’r mynyddoedd. Tryvan 1646/7 Llawysgrifau Baron Hill, Trevaen 1781 Thomas Pennant, the Trivan 1810 Richard Fenton Tours in Wales.

**Y Foel Goch 831m SH 628612 & Y Foel Goch 805m SH 678582**
Enw cyffredin ar fryniau ledled Cymru. *Coch* 'rhudd, gwaedlyd; cringoch’; ond cyn defnydd y gair benthyg brown yn y Gymraeg, yr oedd y geiriau coch, cochlwyd a llwyd oedd y termau i ddisgrifio lliwiau brown. Mae'r gair coch yn digwydd yn aml yn y dirwedd.

**Carnedd y Filiast 822m SH 620628**
Defnyddir y *filiast* yn aml fel anifail chwedlonol, a digon hawdd derbyn bod y creigiau a'r carneddau ar y copa yn adlewyrchu eu cudfodaeth. Mae ffurf y bryn, sy'n atgoffa un o gefn crwm milgi ystyr cryf; enwedig fel gwrthbwynt i'r enw Elidir, os yw'r term Elidir yn gyfeiriad at dir gyda cheirw. Carnedd y Filiast 1781 Thomas Pennant, Carnedd y Filiast 1838 AO.

**Mynydd Perfedd 813m SH 622620**
Mynydd ym *mherfeddion* 'yng nghanol, ganolbwynt, canolbarth' nifer o rai eraill, bron iawn yn gudd; neu, tua'r canol wrth edrych arnynt o ymhell.

**Elidir Fach 795m SH 603612**
Dywedwyd ar un adeg bod yr enw Elidir Fach wedi cael ei greu i roi cydbwysedd i Elidir Fawr ar fap yr AO. Yr oedd yna Gluder Fawr a Gluder Fach, ymhellach ar hyd y gadwyn o fynyddoedd; felly byddai'n well pe bai yna Elidir Fach hefyd. Fodd bynnag, defnyddiodd Thomas Pennant y termau Llider Fawr a Llider Fach yn ei lyfr A Journey to Snowdon (SH 1781/3); yn dangos gwybodaeth eu huchder cyn unrhyw arolwg.

Mynyddoedd

**Gallt yr Ogof 763m SH 685585**
Enw sydd wedi crwydro o'r nodwedd ffisegol ar drwyn y clogwyn, sef yr ogof, i ddynodi'r mynydd gyfan. Mae gan y clogwyn hollt dwfn amlwg a dyma yw'r ogof. Fe nodwyd enw'r mynydd fel Gallt y gogo ar y mapiau cyntaf yr AO 1838, a dyma'r enw a ddefnyddir ar lafar hyd heddiw yn lleol.

**Cefn y Capel 444m SH 709584**
*Cefn* 'cefnen, crib' + *capel* 'eglwys fechan' wedi'i enwi ar ôl yr eglwys a'r pentrefan Capel Curig. Ym mhen gorllewinol y grib, yn (697580); ceir twmpath cyn-hanesyddol hir, dros 20m o hyd, wedi'i alinio o'r Dwyrain i'r Gorllewin. Mae'r gair cefn yn gysylltiedig â’r Llydaweg Canol *queyn*, Hen Gernyweg *chem*, Galaidd *cebenna* 'esgair mynydd, bryn'.

**Moel y Ci 410m SH 593659**
Moel y Ci yw'r ffurf anghywir, ac mae i’w weld ar fapiau'r AO ers 1840; Moel Lleucu yw'r ffurf gywir. Yn wreiddiol y gair moel gyda Lleucu neu Lleici, sef enw benywaidd cyffredin yn y Canol Oesoedd. Mae'r enw i'w weld yn y gerdd glasurol o'r 14 ganrif 'Marwnad Lleucu Llwyd', a ysgrifennwyd gan Llywelyn Goch ap Meurig Hen ar gyfer ei gariad ymadawedig Lleucu Llwyd. Nid Moel Llyctir, term yw *'llyctir, lleyctir'* ar dir a roddid fel taliad am gymwynas seciwlar; ac yn bendant nid Moel y Ci. Moylycki 1588, Moel y Ki, Moylike 1612, Moylyki 1614 i gyd o lawysgrifau Penrhyn, Moel-Lyci 1781 a gwelir Carnedd Moelyci weithiau.

**Parc Drysgol 404m SH 589644**
Ar fapiau'r AO cyntaf, Drysgol-fawr oedd yr enw ar y gefnen rhwng Rhiwen a Moel y Ci; Trysgol Fawr oedd un enw ar y map degwm. Mae'r gair *trwsgl, trysgol* 'garw, bras' yn derm digon cyffredin ar dir mynyddig. Ystyr *parc* 'darn mawr amgaeedig, cae, maes'; sef benthyciad o’r gair Saesneg Canol park, yn un ystyr y gair yna a’r Hen Saesneg *pearroc* 'tir amgaeedig, cae'. Drysgol-fawr 1838 AO.

**Rhiwen 401m SH 582644**
Wedi ei gofnodi fel Rhiwan ar fap degwm 1838, enw sydd yn wrthgyferbyniol i Rhiwlas. *Rhiw* 'allt' + *(g)wen* 'gwyn, golau'. Moel Rhiwen 1838 AO.

**Y Foel Gron 353m SH 586623**
Mae *cron* yn ansoddair benywaidd y gair *crwn* ac mae yn enw addas ar y bryn. Ond, ar fapiau cynnar yr Arolwg Ordnans fe welir Gronw, sef ffurf fer yr enw personol Goronwy. Fe welir Moel Goronwy a thyddyn bychan Foel-Goronwy gerllaw (SH 586624) ar fap AO 6” yn 1887.

**Pen y Bigil 292m SH 577622**
Oes cysylltiad â bigel, fel yn Llanfigel [Llan Vigail 1536-9 Leland, Llanfigail 1556] a’r enw Maen Bigel ym Môn? Y tebygrwydd yw mai'r gair bugail ‘gwyliwr anifeiliaid’ sydd. Ond rhaid nodi mai Bigl ac Y Bigl oedd yr enw ar y mapiau Ordnans cynnar. Rhaid nodi'r Cernyweg *begel* 'twmpath' (wedi ei Saesnegeiddio i'r sillafiad beagle) Hefyd, fe geir planhigyn o'r enw bigl, pigl (benthyciad o'r Saesneg Canol *pigle*) Hounds Tongue *Cynoglossum officinale*. Ond, oherwydd ffurf y bryn, mae rhai yn tybio bo cysylltiad gyda’r gair *pig* ‘blaen neu ben pigog’; benthyciad o’r Saesneg Canol *pik(e)*? Y Bigl 1840-80 6” AO.

Mynyddoedd